Estyn — Dros ddysgwyr, dros Gymru / For learners, for Wales

Elizabeth Berry
Ysgol Gynradd Bryn Celyn
Bryn Celyn
Pentwyn
CF23 7EH

02/07/2025

Annwyl Elizabeth Berry

**Ymweliad interim:** Mehefin 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Bryn Celyn yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â dwy o'i blaenoriaethau gwella. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Parhau i ddatblygu gallu disgyblion i ysgrifennu eu cynnwys eu hunain a strwythuro'u hysgrifennu yn annibynnol, gan addasu eu harddull ysgrifennu i weddu i'r gynulleidfa a'r diben

- Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau effeithiol i greu diwylliant cadarnhaol ar gyfer ysgrifennu a datblygu medrau a hyder disgyblion fel ysgrifenwyr yn raddol. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol.
- Mae athrawon yn gwneud defnydd buddiol o destunau diddorol a chyd-destunau bywyd go iawn fel symbyliad ar gyfer ysgrifennu disgyblion. Maent yn hyrwyddo trafodaethau bywiog yn y dosbarth sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu meddwl a mynegi eu syniadau'n effeithiol. Oherwydd hyn, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion wedi eu cymell i ysgrifennu, maent yn ymroi'n bwrpasol ac yn awyddus i rannu eu gwaith.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu ag annibyniaeth gynyddol ac yn dangos gwybodaeth ddyfnach am nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn ystyried sut i fireinio'u hysgrifennu i weddu i'w ddiben yn effeithiol. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw disgyblion hŷn yn ymestyn eu geirfa'n ddigonol nac yn defnyddio atalnodi'n ddigon cywir.
- Pan mae athrawon yn defnyddio modelau buddiol ac yn darparu meini prawf llwyddiant manwl gywir, mae hyn yn galluogi disgyblion i ganolbwyntio ar wella agweddau penodol a pherthnasol ar eu hysgrifennu. Mae athrawon yn dechrau defnyddio'r dull hwn yn fwy cyson i arwain gwelliant a miniogi'r adborth a roddant i ddisgyblion.
- Mae arweinwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o ddysgu proffesiynol i gryfhau gwybodaeth athrawon am strategaethau effeithiol. Maent yn monitro rhoi dulliau cytûn ar waith i nodi agweddau ar addysgu sydd angen eu mireinio ymhellach.

## Datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr cydweithredol effeithiol

- Mae arweinwyr wedi defnyddio dysgu proffesiynol i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o ymddygiadau cydweithredol ar draws yr ysgol. Mae hyn yn galluogi pob un o'r staff i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau cymdeithasol a chyfathrebu i ryngweithio â'u cyfoedion yn llwyddiannus.
- Mae athrawon yn modelu disgwyliadau uchel sy'n annog disgyblion i fynd ati i ymgysylltu â'u dysgu. Maent yn defnyddio arferion ystafell ddosbarth cyson sy'n helpu disgyblion i setlo'n gyflym a chanolbwyntio ar eu dysgu.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn ystyriol wrth siarad â phartneriaid ac mewn trafodaethau grŵp. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau a chyfarwyddiadau. Mae hyn yn eu helpu i ymgysylltu'n bwrpasol â'u tasgau a datblygu hyder ac annibyniaeth gynyddol wrth reoli eu dysgu eu hunain.
- Mae staff yn addasu dulliau addysgu yn fedrus i adlewyrchu anghenion datblygiadol ac emosiynol disgyblion unigol. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael eu cynnwys yn llawn mewn gweithgareddau grŵp, ac yn elwa ar gydweithio.
- Mae arweinwyr yn darparu cymorth estynedig buddiol trwy ddarpariaeth 'Cwtch' yr ysgol sy'n helpu disgyblion i ddeall a rheoli eu teimladau'n well. Mae hyn yn eu galluogi i ryngweithio'n fwy effeithiol â chyfoedion, a chyfrannu'n adeiladol at weithgareddau grŵp.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/bryn-celyn-primary-school-cy/

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol